



Adroddiad Blynnyddol 2024/25



1. Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynnyddol Cyngor Cymuned y Fali ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r Cyngor yn falch o ddatlu 50 mlynedd ers iddo gael ei sefydlu yn 1974.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi fel gofyniad uniongyrchol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n anelu at sicrhau llywodraethu cadarn a rheolaeth effeithiol o arian cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn bwriadu cynyddu tryloywder ac ymwybyddiaeth o waith y cyngor cymuned.

2. Y Cyngor

Mae Cyngor Cymuned y Fali yn gorff bach o 13 o gynghorwyr gwirfoddol, sy'n gweithio tuag at wella a chynnal ein cymunedau. Mae ein wardiau'n cwmpasu'r Gorllewin a phentref canolog y Fali ynghyd â Gorad a Llanynghenedl. Y cler c yw'r unig gyflogai.

Cadeirydd y Cyngor Cynghorydd Neil R Tuck


Is-gadeirydd Cynghorydd Gordon David Browne MBE JP

Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol Mrs Rhianwen Sheldon

Ward Gorad Cyng Mavis Swaine-Williams Cyng Neil R Tuck Cyng Charles Thornhill Cyng Caroline Tattersall (o 20/12/24)	Ward y Pentref Cyng Gordon David Browne MBE JP Cyng Bill Rogerson MBE Cyng Ken Taylor Cyng Angela Walker Cyng Dillon James Hughes
Ward y Gorllewin Cyng Helen Williams Cyng Sion Williams Cyng D Taylor (o 17/4/24 i 17/7/24) Cyng R Eryl Jones (o 18/12/24)	Ward Llanynghenedl Cyng Iwan Tudur Jones

Mae gennym dri is-bwyllgor: Y Pwyllgor Cyllid a Phersonél sy'n goruchwyllo rheolaeth ariannol effeithiol ar gronfeydd y cyngor a'r holl faterion cyflogaeth. Y Pwyllgor Parciau sy'n rheoli'r holl ardaloedd chwarae a mannau agored a Phwyllgor Mynwent Ynys Wen sy'n rheoli'r fynwent gyhoeddus. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am bwyllgorau a chynrychiolaeth drwy'r ddolen we ganlynol; [Cynghorwyr Cymuned](#).

3. Ein Ardal



4. Manylion Cyswllt Allweddol

Prif gyswllt y Cyngor Cymuned yw'r Clerc, Mrs Rhianwen Sheldon.

Y cyfeiriad cyswllt yw 27 Alltwen, Llysfaen, Bae Colwyn, Conwy LL29 8PG

Ffôn: 07786253828

Gellir cysylltu â'r Clerc hefyd drwy e-bost yn valleycommunitycouncil@gmail.com

Gellir cysylltu â Chadeirydd y Cyngor, y Cyngorydd Neil R Tuck drwy e-bost yn chairman.valleycommunitycouncil@gmail.com


Mae dogfennau allweddol, cofnodion cyfarfodydd, newyddion a gwybodaeth gyffredinol ar gael ar ein gwefan: www.valley-community-council.wales

5. Gwybodaeth Ariannol

Ceir crynodeb o sefyllfa ariannol y cyngor ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 isod:


Incwm:

Derbyniodd y Cyngor praesept o £46,964 gan yr Awdurdod Lleol, incwm arall o £21,149 ynghyd â £55,500 ychwanegol mewn cyllid grant i ddarparu ei wasanaethau ar gyfer 2024/25 fel y dangosir yn y siart isod.



Gwariant:

Cyfanswm y gwariant yn ystod 2024/25 oedd £131,476 fel y dangosir yn y siart isod.



Cysoni Banc

2024/25

Balans wedi'i gyflwyno ar 1 Ebrill 2024	£59,147
Derbyniadau	£123,613
Taliadau	£131,476
Balans wedi'i gario ymlaen ar 31 Mawrth 2025	£51,284

Roedd gan Gyngor Cymuned y Fali asedau sefydlog gwerth £230,304 ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru i'w hadolygu bob blwyddyn

6. Perthynas â'r Awdurdod Lleol

Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda Chynghorwyr Sir Bro'r Llynnoedd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cynghorwyr Sir Ken Taylor a Gwilym Jones yn mynychu cyfarfodydd busnes misol y Cyngor. Mae'r Cynghorydd Ken Taylor hefyd wedi bod yn Gynghorydd Sir a Chymuned ers blynnyddoedd lawer. Mae gwybodaeth bob amser yn cael ei raeadru trwy Gadeirydd y Cyngor a'r cler. Mae cynrychiolwyr wedi mynychu holl gyfarfodydd Fforwm Cyswllt Cyngor Tref a Chymuned gyda'r Awdurdod ac wedi rhoi diweddariadau i bob un o'r cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Cymuned. Mae materion a godir gan Gynghorwyr sy'n ymwneud â chyfrifoldeb Awdurdod Lleol yn cael eu cyfeirio at swyddogion priodol o fewn yr Awdurdod i'w datrys.

Mae'r holl argymhellion a wnaed mewn adroddiadau perthnasol a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor Safonau Awdurdodau Lleol mewn perthynas ag archwiliadau cynghorau tref a chymuned wedi'u gweithredu.

7. Hyfforddiant

Mae cynllun hyfforddi ar gyfer y Cyngor wedi'i fabwysiadu sy'n adlewyrchu anghenion unigol Cynghorwyr. Mae pob Cynghorydd Cymuned yn mynychu cyrsiau hyfforddi fel y bo'n briodol. Mae Un Llais Cymru yn darparu sesiynau hyfforddi rheolaidd i gynghorwyr cymuned i'w cefnogi yn eu rôl.

8. Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion swyddogol am waith y Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn.

9. Cyflawniadau a Gweithgareddau yn ystod 2024/25

Darparodd y Cyngor wasanaethau a chynnal yr asedau canlynol i'r gymuned:

➤ Y parc 20.3 erw ym Mharc Mwd a'r pafiliwn

Gweithiodd y Cyngor mewn partneriaeth â Chynghrair Bro Llynnoedd a llwyddodd i ddenu dros £45,500 mewn grantiau i Barc Mwd. Roedd y cyllid ar gyfer atgyweiriadau a gwelliannau ardal y triongl, darparu offer campfa awyr agored a chwrt pêl-fasged. Derbyniwyd dyfarniad arall o ran coed, planhigion ac offer gwerth dros £9,000 gan Cadw Gymru'n Daclus drwy'r cynllun Lleoedd i Natur.

Y Triongl: Derbyniwyd £7,500 tuag at atgyweirio'r perimedr triongl ac i osod offer campfa awyr agored.

Y Triongl Cyn



Hoffai'r Cyngor ddiolch i'r holl wirfoddolwyr
a weithiodd yn galed i glirio ardal y triongl

Gosod ymylon a physt pren newydd



Triongl ar ôl



Offer campfa awyr agored wedi'u
gosod



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Funded by
UK Government



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Lleoedd ar gyfer Natur ym Mharc Mwd

Helpodd y Cynllun Lleoedd ar gyfer Natur gan Cadw Gymru'n Daclus i wella bioamrywiaeth y parc, i amnewid coed marw a darparu man gwyrdd ar gyfer lles trigolion.



Plannodd gwirfoddolwyr 115 o goed (afalau, gellyg, eirin, ffawydd, ddraenen wen, cyll) bylbiau brodorol a thyweirch dôl blodau gwyllt o amgylch y parc. Codwyd borderi uchel a'u plannu gyda glaswellt, blodau brodorol a pherlysiau.



Derbyniodd y Cyngor offer gan Cad Gymru'n Daclus i ddod yn ganolfan casglu sbwriel i'r gymuned.

Dywedasoch, fe wnaethon ni wrando! – Cyfleuster newydd ym Mharc Mwd

Yn dilyn cais ac ymgynghoriad eang, adeiladwyd a lansiwyd y Cwrt Pêl-fasged ym Mharc Mwd ar 24 Mai 2025. Derbyniwyd grantiau gwerth £38,000 tuag at gost y gwaith h.y. £20,000 o Arian i Bawb gan Loteri Genedlaethol Cymru, £10,000 gan Gymdeithas Elusennol Ynys Môn, £5,000 gan Dŵr Cymru a £3,000 gan Gynghrair Bro Llynnoedd. Darparodd Lagan Aviation Infrastructure Limited yr holl waith tir ar gyfer y prosiect yn rhad ac am ddim fel budd i Gymuned y Fali.

Cyn



Yn ystod ac ar ôl



Cyflwynodd y Cyngor dystysgrifau o werthfawrogiad i Lagan Aviation Infrastructure Limited ac i Kieran a Ryan Jones pwy ofynnodd am y cwrt yn y lle cyntaf ac a dorodd y ruban i agor y cyfleuster pêl-fasged yn swyddogol ym Mharc Mwd.



- Mynwent Gyhoeddus Ynys Wen a chynnal cofnodion claddu

Comisiynodd y cyngor adroddiad draenio ar faes y fynwent fel rhan o'r gwaith i adolygu'r capasiti claddu.


- Prydlesu'r ardal chwarae ger yr Ysgol gan yr Awdurdod Lleol a chynnal a chadw'r offer chwarae a thalu am gasglu sbwriel ar y safle
- Cynnal arolygon cyflwr ac asesiadau risg ar yr holl offer chwarae yn y gymuned i sicrhau iechyd a diogelwch



Yn ystod y flwyddyn gosododd y Cyngor offer campfa awyr agored i'r plant yn y maes chwarae.

- Cloc y Mileniwm
- 14 Lloches Bysiau

Derbyniodd y cyngor grant adfywio o £10,000 i amnewid lloches bysiau cerrig ar Lon yr Orsaf.



Cyn



Ar ôl

- 22 meinciau cyhoeddus a 43 bwrdd picnic




Newidiodd y Cyngor fainc bicnic ym Mharc Mwd a gosod dwy fainc newydd yn y gymuned



- 2 Hysbysfyrddau cymunedol
- Tir ym Mharc Branwen
- Pob Llwybr Cyhoeddus ar ran yr Awdurdod Lleol
- Treth y Cyngor a phrydlesu'r maes parcio cyhoeddus a dalwyd i'r Awdurdod Lleol i ddarparu parcio am ddim
- Cynrychioli trigolion, drwy gyfleu unrhyw bryderon gan y Gymuned i'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru lle bo angen
- Trosglwyddo gwybodaeth i drigolion sy'n effeithio ar y gymuned
- Trafod gyda, a dylanwadu ar y sefydliadau eraill hynny sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y gymuned
- Ymgynghori ar geisiadau cynllunio
- Ymgynghori â pholisi lleol a chenedlaethol ar ran y gymuned
- Galluogi cyfarfod hybrid er mwyn sicrhau hygyrchedd
- Ymgynghori a rhoi ein barn ar faterion cynnal a chadw priffyrdd, materion tawelu traffig,
- materion parcio, enwi strydoedd ac ati.

Gweithiodd y Cyngor gydag Ysgol Gymunedol y Fali i geisio mynd i'r afael â'r broblem o baeddu cŵn yn y gymuned. Bu plant Blwyddyn 3 a 4 yn cymryd rhan mewn prosiect i ddylunio posteri a dosbarthwyr bagiau gwastraff cŵn i'w gweld ar arwyddion o amgylch y pentref.

Y tri chais buddugol oedd:



Cyflwynwyd setiau lluniadu i'r enillwyr.

Roedd y Cyngor Cymuned yn falch o gyflwyno tystysgrif i'r Ysgol am Gyfraniad Gwerthfawr i'r Gymuned.



➤ Cofeb Rhyfel

Coffáodd y Cyngor 80 mlynedd ers glanio D-Day yn Normandi, Ffrainc ar 8 Mehefin 2024



Talodd y Cyngor Cymuned ei deyrnged ar Sul y Cofio 10 Tachwedd 2024. Gosodwyd torchau pabi yn Ysgol Gymunedol y Fali ac wrth y Gofeb Ryfel ym Mynwent Ynys Wen

Mae'r Cyngor hefyd wedi cefnogi eraill sydd o fudd i'r gymuned, sef:

- £50 Hosbis Dewi Sant
- £50 Papur Newydd Cymunedol 'Y Rhwyd'
- £50 i'r Llent Brydeinig Frenhinol a gosod torchau pabi wrth gofeb ryfel yr Ysgol a Mynwent Ynys Wen
- £50 SSAFFA
- £50 Ffederasiwn Clwb Ffermwyr Ifanc Ynys Môn
- £500 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – Ynys Môn

10. Effeithiolrwydd Cyfarfodydd y Cyngor

Mae'r ffigurau isod yn dangos cyfraddau presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Cyngor. Cynhaliwyd cyfanswm o 24 o gyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Roedd y % presenoldeb fel a ganlyn:

- | | |
|--------------------------------|-----|
| ➤ Cyfarfodydd Cyngorau Cymuned | 77% |
| ➤ Pwyllgor Cyllid a Phersonél | 85% |
| ➤ Pwyllgor Parciau | 79% |
| ➤ Pwyllgor Mynwent Ynys Wen | 93% |

11. Nodau ac Amcanion ar gyfer 2025/26 a Chyfeiriad Strategol

Yn 2025/26 bydd y Cyngor Cymuned yn parhau i wasanaethu'r gymuned yn unol â'i ddyletswyddau a'i bwerau o dan ddeddfwriaeth. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal i ddatblygu cynllun i'r dyfodol.

Gweledigaeth:

Y Fali – lle mae unigolion a theuluoedd yn ffynnu a lle mae pobl eisiau byw

Datganiad Cenhadaeth:

Bod yn gyngor sy'n ymgysylltu'n llawn â'r gymuned ehangach ac i ymdrechu i wneud ein gorau glas dros bob preswlydd yn y Fali

Nodau

- Darparu llywodraeth leol effeithiol, effeithlon ac atebol ar gyfer y gymuned, gan alluogi trigolion i fod yn rhan o fywyd y gymuned a'i datblygiad yn y dyfodol.
- Bod yn llais cryf i drigolion a busnesau lleol, gan weithio i wella'r ardal gymunedol gyffredinol yn adeiledig a naturiol, tra'n cadw ei iaith, ei diwylliant a'i threftadaeth.

Amcanion:

Thema 1 – Llywodraethu Cyngor Cymuned y Fali

1. Gwella cyfathrebu rhwng y Cyngor Cymuned a thrigolion a busnesau
2. Gwella effeithiolrwydd Cyngor Cymuned
3. Cynyddu dylanwad / cydlynu mewn materion sy'n effeithio ar y gymuned
4. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

Thema 2 - Hamdden a Chymuned

5. Gwella cyfleusterau hamdden i'r plant a'r bobl hŷn yn y gymuned
6. Ymgynghori â'r gymuned i nodi anghenion a safbwyntiau lleol y gellir mynd i'r afael â nhw drwy weithredu adeiladol y cyngor

Thema 3 - Ymddangosiad y Plwyf, yr Amgylchedd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelwch

7. Cadw ffyrdd a lonydd yn lân er mwynhad trigolion ac ymwelwyr
8. Cynnal Asedau Cymunedol yn effeithiol
9. Gwella seilwaith lleol
10. Dathlu a gwarchod y dirwedd leol a chael dweud ei lais yn ei rheolaeth yn y dyfodol.

11. Lleihau troseddu a helpu trigolion a busnesau i deimlo'n well amddiffyn rhag troseddu.

Thema 4 – Priffyrdd, Trafnidiaeth a Mynediad

12. Mynd i'r afael â phryderon priffyrdd trigolion a busnesau a cheisio atebion

Thema 5 – Yr Economi a Thwristiaeth

13. Annog datblygiad economaidd.

Thema 6 - Tai ac Iechyd

1. Parhau i wneud sylwadau ar yr holl ddogfennau cynllunio strategol allweddol ac ymgynghoriadau sy'n effeithio ar y Gymuned gan sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth y Cyngor Cymuned o'r cyd-destun lleol yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau
2. Annog trigolion lleol i gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriadau cynllunio strategol sy'n effeithio ar y gymuned
3. Adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor Cymuned yn ystyried ac yn gwneud ymatebion ar geisiadau cynllunio.

12. Future budget requirements

Cymeradwydd y Cyngor y gyllideb ddrafft yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2024 a phenderfynodd osod y praesept (trethiant lleol) ar £60,994.89 ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

Os hoffech ragor o wybodaeth am yr Adroddiad Blyneddol hwn, cysylltwch â'r clerc yn: valleycommunitycouncil@gmail.com



4-2024